Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr
St Albans Road,
Brynmill,
Swansea,
SA2 0BP
01792 466354
ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk
www.yggbrynymor.co.uk

**Hawl Mis Mawrth: Yr hawl i enw a chenedligrwydd**



# Cylchlythyr Bryn-yMôr




## *Gala Nofio'r Urdd*

Diolch a llongyfarchiadau i'r bechgyn oedd wedi cystadlu yn y Gala Nofio yng Nghaerdydd- Alex, Cai, Gwilym ac Alfie. Llongyfarchiadau arbennig i Alfie Gilligan hefyd am sicrhau gwobr aur ac arian yn y gystadleuaeth nofio rhydd a phili-pala.

### Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blynyddoedd 3—6 oedd wedi cystadlu yn y Cwis Llyfrau yn ysgol Felindre. Wedi rownd llwyddiannus mae'n dda cyhoeddi bod y ddau dîm wedi mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Dymunwn yn dda iddynt.

### Profion Cenedlaethol

Cynhelir y Profion Cenedlaethol i flynyddoedd 2-6 rhwng Mai 7fed a Mai 14eg, 2019. Eleni gweinyddir y prawf Rhifedd Gweithdrefnol ar-lein am y tro cyntaf. Bydd manylion pellach yn dilyn.

### Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Diolch i'r CrhA am drefnu y disgo Santes Dwynwen i'r Cyfnod Sylfaen ac i CA2.

Roedd y lle yn orlawn a'r plant wrth eu bodd yn dawnsio a mwynhau cwmni ei gilydd. Gwnaed elw o £232.60

Twmpath Dawns

Cynhelir Twmpath Dawns ar y 30ain o Fawrth yn Eglwys Sant Benedict.

### Trydar

Dilynwch yr ysgol ar Trydar am y digwyddiadau diweddaraf.

## Eisteddfodau

Cynhelir yr Eisteddfod ysgol ar y 6ed o Fawrth, 2019.

Cynhelir yr Eisteddfod gylch ar yr 20fed o Fawrth a'r Eisteddfod Sir. ar y 30ain o Fawrth.

### Lluniau Dydd Gŵyl Dewi

Gofynnir i ddisgyblion wisgo eu gwisg Gymreig ar y diwrnod cyntaf nol ar ôl hanner tymor, Bydd ffotograffydd yn tynnu lluniau unigol.

## Cyngor Ysgol

Yn ystod y tymor bu aelodau'r Cyngor Ysgol ar ymweliad â'r Senedd yng Nghaerdydd. Cawsant eu tywys o amgylch y safle, gyfle i gwrdd a holi cwestiynau i aelod seneddol lleol a chyfle i fynegi bbarn a phleidleisio ar bwnc llosg.

### Presenoleb

Presenoldeb yr ysgol ar ddiwedd y tymor hwn yw: 96.1%

### Cystadleuaeth Codio

Llongyfarchiadau i Alexander Besley, Bl 6 ar gyrraedd y rownd derfynol mewn cystadleuaeth codio cenedlaethol. Pob lwc Alexander!

## Ymweliadau a Digwyddiadau Addysgol

Ymweliad Bl 3 a 4 â Techniquest



Blwyddyn 6 yn ymgymryd â gweithdai Addysg Bersonol a Chymdeithasol



Gweithdy Cerddoriaeth Bl 5 a 6



Gweithdy Darllen yn y Cyfnod Sylfaen



## Murlun Newydd yn croesawu pawb i'r ysgol

Diolch i Mr Rhys Jones, aelodau'r Cyngor Ysgol a disgyblion hŷn yr ysgol am ddechrau ar y gwaith o greu murlun lliwgar ac effeithiol iawn ger mynedfa'r ysgol. 'Croeso i'n hysgol' yw thema'r murlun a bwriedir ymestyn thema'r murlun i gynnwys croeso mewn ieithoedd

gwahanol.